Strategaeth Foderneiddio Addysg Uwchradd ac Ôl-16 Powys

Rhaglen Amlinelliad Strategol - Dogfen Drafodaeth

Mehefin 2010

Rhagymadrodd gan y Cynghorydd David Jones, Deiliad y Portffolio Addysg

Prif nôd Cyngor Sir Powys yw i godi safonnau ac ehangu cyfleon dysgu ar gyfer ein plant a phobl ifanc. Mewn byd sydd yn newid yn gyflym iawn gyda phwysau economaidd cynyddol, mae dyfodol ein darpariaeth uwchradd ac ôl-16 o dan fygythiad. Wrth ystyried y gofynion enfawr sydd ar y system addysg, gyda lleihad mewn niferoedd disgyblion, yr angen i ehangu a chynyddu'r nifer o byncau, a'r angen i fuddsoddi mewn gwella ansawdd ein hadeiladau, mae'n holl-bwysig ein bod fel Cyngor yn ystyried yr opsiynnau ar gyfer addysg uwchradd ac Ôl-16.

Mae'r ddogfen hon yn gosod sylfaen ar gyfer trafodaeth eang. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynglyn â'r problemau sy'n wynebu'r sector a hefyd opsiynnau i'w hystyried.

Mae'r Cyngor yn awyddus i adeiladau ar y dysgu a'r addysgu arbennig sy'n digwydd yn ein hysgolion bob dydd. Rydym wedi'n hymrwymo i sicrhau llwyddiant y Fframwaith Effeitholrwydd Ysgolion, a fydd yn dilyn at gynyddu a gwella allbynnau dysgu a lles pob un plentyn a pherson ifanc yn y sir. Bydd y Fframwaith hon yn cael ei gweithredu mewn cydweithrediad rhwng yr Awdurod Lleol, ysgolion a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

O fewn y Fframwaith Effeitholrwydd Ysgolion, rydym yn awyddus i gydweithio gyda'n hysgolion er mwyn ehangu'r opsiynnau cwriciwlwm ar gyfer disgyblion rhwng 14 a 19 mlwydd oed, o dan adain rhaglen Llwybrau Dysgu 14 – 19 Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i *pob* disgybl i ddewis o blith ystod eang o bynciau, boed yn academig neu yn alwedigaethol, a hefyd i dderbyn pecyn cyflawn o gefnogaeth a chyngor. Mae'n bwysig ein bod yn adeiladau partneriaethau rhwng darparwyr ym Mhowys fel ein bod yn medru seilio'r ddarpariaeth yn gadarn o fewn ein cymunedau dysgu.

Tra ein bod yn awyddus i gyflawni ein gweledigaeth addysgol ar gyfer ein plant a phobl ifance, mae'n holl-bwysig ein bod yn rhoi addysg ym Mhowys ar blatfform ariannol cadarn ar gyfer yr hir-dymor. Mae angen i ni ystyried y dulliau mwyaf addas o gyflawni hyn. Rhaid i ni barhau i adeiladau ar y gwaith da sy'n digwydd yn ein hysgolion ac i osod cynsail mewn lle a fydd yn sicrhau bod addysg ym Mhowys yn gynaliadwy a hyfyw yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae buddsoddiad yn ein hadeiladau a thechnoleg yn holl-bwysig hefyd, er mwyn gallugoi dysgwyr ac athrawon i wneud y mwyaf o'u hamgylcheddoedd dysgu.

Rydym wedi'n hymrwymo i ddatblygu seilwaith uwchradd ac ol-16 ym Mhowys yn y ffordd mwyaf agored a chynhwysol, ac edrychwn ymlaen i drafod gyda chi ynglyn â dyfodol addysg uwchradd ym Mhowys.

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb Gweithredol	3
1. Diben y Ddogfen	6
2. Achos Strategol	8
3. Nodau Buddsoddi'r Strategaeth a'r Rhaglen	10
4. Trefniadau Presennol	12
5. Gyrwyr Newid Cenedlaethol	14
6. Gyrwyr Newid Lleol	18
7. Ffactorau Llwyddiant Allweddol	27
8. Argymhellion a dewisiadau	28
9. Disgrifiad o'r Modelau	31
10. Camau Nesaf	37
11. Amserlen	38

Crynodeb Gweithredol

Datblygwyd y ddogfen hon yn unol â Model Busnes Pum Achos Trysorlys EM, a dyma'r ddogfen ymgynghorol a strategol gyntaf i amlinellu dyheadau Cyngor Sir Powys ar gyfer moderneiddio'r sectorau ysgolion uwchradd ac ôl-16. Y nod yw cynnig dealltwriaeth glir o'r cyd-destun strategol, y canlyniadau dymunol a'r strategaeth weithredu.

Ein gweledigaeth ar gyfer Powys dros y 25 mlynedd nesaf yw cael sector addysg a hyfforddiant uwchradd ac ôl-16 sy'n cynnig ***y ddarpariaeth addysg ddwyieithog o'r safon uchaf sydd ag ystod eang o gyfleoedd dysgu, sy'n cael ei chefnogi gan gyfleusterau a thechnoleg o safon fyd-eang a fydd yn galluogi holl ddysgwyr Powys i ddatblygu eu sgiliau hyd at y lefel uchaf.***

Credwn mai nod sylfaenol addysg yw creu dysgwyr wedi'u hysgogi ac sy'n effeithiol, sy'n gynyddol gyfrifol am eu dysg eu hunain, sy'n medru gwneud defnydd llawn o'r technolegau newydd ac a fydd yn gallu dysgu a defnyddio sgiliau newydd yn effeithiol trwy gydol eu bywydau, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae'r **Egwyddorion Allweddol** canlynol yn sail i'r Strategaeth:

- **Hawl**
  Dylai'r holl ddysgwyr gael mynediad at gwricwlwm dwyieithog sy'n cwrdd ag ystod eang o anghenion a dyheadau o fewn amser teithio addas;
- **Partneriaeth**
  Rhwydwaith ddysgu o safon fyd-eang a ddarperir trwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng yr Awdurdod, ysgolion a mudiadau partner;
- **Ansawdd – ansawdd dysgu**
  Bydd angen i unrhyw ddatblygiadau sicrhau fod yr ansawdd addysg a hyfforddiant arbennig yn cael eu cynnal'a'u cynyddu;
- **Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd**
  Er mwyn cwrdd ag anghenion yr holl ddysgwyr, dylid creu fframwaith o ddarpariaeth addysg i sicrhau fod darpariaeth addysg yn hyfyw yn addysgol ac ariannol.
- **Yr Amgylchedd Ddysgu a'r Gymuned;**
  Dylai dysgu ddigwydd mewn amgylchedd arbennig sy'n ysbrydoli, sydd ag adnoddau ar gyfer y gymuned gyfan a all gynnig ystod o gyfleusterau wedi'u lleoli gyda'i gilydd, yn cynnwys gofal plant, gwasanaethau iechyd , gwasanaethau chymdeithasol ac addysg i oedolion.

Mae'r ddogfen yn amlinellu'r trefniadau presennol o fewn y sector addysg ac yn amlinellu'r prif ffactorau sy'n cynnig her i'r system hon ar hyn o bryd, a dros y bum mlynedd nesaf, sy'n cynnwys cwricwlwm sy'n newid; goblygiadau demograffig; materion hyfywedd ariannol; cynhwysiant; yr angen i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg; trawsnewid y sector ôl-16 sector a'r angen i fuddsoddi yn seilwaith gyfalaf ein hystadau a thechnoleg. Tra'i bod yn cael ei chydnabod fod safonau cyrhaeddiad Powys yn dda iawn o'u cymharu ag Awdurdodau eraill, mae dysgwyr Powys dan anfantais o beidio â chael mynediad teg at gyfleoedd dysgu.

Cyfeirir at ystod o fodelau posibl ar gyfer ad-drefnu'r sector, a fydd yn cael eu gwerthuso ymhellach wrth ddatblygu'r achos busnes. Mae'r rhain yn adlewyrchu ein huchelgais i gael rhwydwaith ddysgu newydd, ddeinamig ac egniol sydd hefyd yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir. Bydd ymgynghori cyhoeddus llawn yn hanfodol i'n galluogi i fesur pa mor addas yw'r modelau hyn yn llawn.

Thema gref yn y Strategaeth yw bod y cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol oll yn yrwyr allweddol, sy'n awgrymu fod angen i Bowys ystyried os gall y modd y caiff addysg a hyfforddiant ei gynnig ar hyn o bryd ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, yn y tymor byr a'r tymor hir.

1. Diben y ddogfen

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth am Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Uwchradd Cyngor Sir Powys, sy'n rhan o raglen ehangach yr Awdurdod o foderneiddio ei ysgolion. Mae rhaglen foderneiddio ysgolion cynradd eisoes ar waith, a dechreuwyd ar y broses o adolygu'r ysgolion uwchradd yn ddiweddar.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein dyheadau ar gyfer sector addysg uwchradd ac ôl-16 sy'n cynnig ***y ddarpariaeth addysg ddwyieithog o'r safon uchaf sydd ag ystod eang o gyfleoedd dysgu, sy'n cael ei chefnogi gan gyfleusterau a thechnoleg o safon fyd-eang a fydd yn galluogi holl ddysgwyr Powys i ddatblygu eu sgiliau hyd at y lefel uchaf.*** Bydd yn amlinellu cryfderau a gwendidau'r sector bresennol, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu, ac yn cynnig argymhellion a dewisiadau ar gyfer y dyfodol.

Mae ysgolion uwchradd Powys yn cynnig addysg o safon uchel, fel sydd i'w weld yn y canlyniadau gwych a geir mewn arholiadau bob blwyddyn. Serch hynny, mae'n amlwg fod y sector ysgolion uwchradd am weld toriadau ariannol difrifol, gan fod mewn perygl o beidio â bod yn gynaliadwy. Mae'r rhesymau am y newid yn cael eu trafod yn llawn yn y ddogfen, ond gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- diffyg presennol ac arfaethedig yn y gyllideb a chostau uchel y ddarpariaeth;
- gostyngiad mewn niferoedd cofrestru;
- gofyniad deddfwriaethol i ehangu ystod y ddarpariaeth 14 – 19;
- natur gynaliadwy y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- hyfywedd dosbarthiadau bach;
- diffyg o ran cyflwyno;
- mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn yr adeiladau a thechnoleg;
- mae angen trawsnewid dysgu ôl-16 yn y sir;

Er bod ysgolion a'u partneriaid yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chefnogi addysg, mae materion sylfaenol sylweddol sy'n effeithio ar y sector. Mae angen i ni, ynghyd â'r ysgolion a mudiadau partner, ddod o hyd i atebion cost effeithiol fel y gallwn barhau i gynnig yr addysg o'r ansawdd gorau posibl y mae'r dysgwyr a'r cymunedau yn ei fynnu, yng nghyd-destun rhagolygon cyllidebol a demograffig difrifol.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod gennym gyfle gwych i greu seilwaith ddysgu ym Mhowys a all gwrdd â gofynion a dyheadau dysgwyr yn yr 21ain Ganrif. Gall hyn olygu symud oddi wrth y modd traddodiadol o gyflwyno addysg, a bydd yn rhaid ystyried os yw'r diffiniad traddodiadol o 'ysgol' yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr a chymunedau'r 21ain Ganrif. Oherwydd natur wledig a gwasgaredig Powys, mae'r angen i gynnig gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr yn her i'r holl wasanaethau, a rhaid ystyried integreiddio ymhellach â'r gwasanaethau eraill hyn, megis iechyd, gofal cymdeithasol a hamdden.

Efallai hefyd y bydd angen ystyried partneriaethau â darparwyr mewn Awdurdodau Cymreig cyfagos, lle bo ysgolion yn agos at y ffiniau.

Bydd ein dyhead i gael rhwydwaith addysg newydd, fodern, ac egniol yn golygu ystyried pa mor effeithlon yw'r modd y mae'r sector yn cael ei reoli a'i lywodraethu, ac os oes angen trefniadau rheoli newydd i gefnogi'r sector. Byddwn yn cyfeirio at 'Achos Amlinellol Strategol Powys ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Ôl-16'[1] 2009, a gynigiodd ddewisiadau ar gyfer rheoli a llywodraethu addysg ôl-16 yn y sir. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth y mae'r Awdurdod Lleol a Choleg Powys yn gyfrifol amdanynt. Mae addysg Ôl-16 yn y cyd-destun hwn yn cynnwys dysgu llawn a rhan amser ar gyfer rhai 16 – 19 oed, 19+, dysgu cymunedol a darpariaeth dysgu yn y gwaith yr Awdurdod a Choleg Powys. Bydd y dewisiadau hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw gynigion i ad-drefnu ysgolion.

[1] Achos Amlinellol Strategol Seilwaith Ddysgu Ôl 16 – RSM Bentley Jennison 2009

2. **Achos Strategol**

Gorolwg o'r Drefniadaeth

Mae Powys yn sir wledig fawr o oddeutu 130,000 o bobl sydd wedi'i lleoli yng nghanolbarth Cymru, sy'n cyd-redeg â chyfran helaeth o'r ffin â Lloegr, ac yn ffinio â nifer o siroedd eraill Cymru. Mae'r prif ganolfannau poblogaeth yn nhrefi Y Drenewydd, Y Trallwng, Aberhonddu, Llandrindod ac Ystradgynlais, ac mae nifer o drefi a phentrefi llai.

Demograffi a'r Economi

Mae Powys yn wynebu nifer o heriau, ac mae dadansoddiad o'r demograffi a'r tueddiadau cymdeithasol economaidd[2] wedi dynodi nifer o faterion sy'n effeithio ar y Sir:

- Dwysedd poblogaeth isel a phatrymau aneddiadau gwasgaredig;
- Poblogaeth gymharol sefydlog, wedi'i nodweddu ag allfudo net ymhlith yr ifanc a mewnfudo net ymhlith pobl hyn;
- Dominyddiaeth gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, sy'n cynrychioli 33% o'r holl swyddi yn y Sir.
- Powys yw un o'r ardaloedd sydd â'r cyflogau isaf yng Nghymru;
- Mae symud wedi bod oddi wrth y sectorau traddodiadol, megis amaethyddiaeth, i dwristiaeth, adwerthu a'r sector cyhoeddus;
- Mae'r stoc dai preifat mewn cyflwr gwael;
- Allbwn economaidd isel;
- Iechyd economaidd sy'n gostwng;
- Lefel hunangyflogaeth uchel;
- Lefelau isel o ran cael hyfforddiant a datblygu sgiliau o fewn Mentrau Bach a Chanolig a meicro-fusnesau;
- Lefelau is o gymwysterau NVQ2 a 3 o'i gymharu â lefelau Cymru a'r DG;
- Mae Powys yn cynnwys chwarter tir Cymru, ond yma mae'r boblogaeth fwyaf gwasgaredig o holl siroedd Cymru a Lloegr, gyda dim ond 25 o bobl i bob cilomedr sgwâr yn 2007 (Cymru 144).

Cyngor Sir Powys

Mae gan y Cyngor 73 cynghorydd, a'r Bwrdd sy'n gyfrifol am y mwyafrif o'r penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 15 cynghorydd sy'n adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

[2] Fframwaith Adfywio Strategol Powys 2009 – Cyngor Sir Powys

Mae'r Uwch Strwythur Rheoli wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar, ac mae'r Gwasanaeth Ysgolion a Chynhwysiant bellach o fewn cyfarwyddiaeth newydd 'Cymunedau, Sgiliau a Dysgu' sydd hefyd yn cynnwys y gwasanaethau hamdden ac adfywio economaidd.

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio'n galed o fewn cyllideb heriol dros y blynyddoedd diwethaf. Ar ôl derbyn y setliad isaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda dim ond codiad o1.5% yn 2009 a dim ond codiad o 1% ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11, mae angen i'r Awdurdod edrych ar ffyrdd o wneud arbedion effeithlonrwydd ac o ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi cytuno i archwilio syniad o uno â Bwrdd Iechyd Lleol Powys, a fyddai'n golygu'r posibilrwydd o greu un sefydliad erbyn 2013.

Gweledigaeth y Cyngor – 'Gwasanaethau Effeithlon ar gyfer Calon Werdd Cymru'

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr ar gyfer poblogaeth wasgaredig o fewn sefyllfa ariannol ac economaidd heriol. I gyflawni hyn, mae'r Awdurdod wedi dynodi pedwar Blaenoriaeth Gwella, sef:

- Bywyd Oedolion
- Dysgu yn y Gymuned
- Adfywio Economaidd
- Newid yn yr Hinsawdd

Bydd y rhain, ynghyd â chwe Blaenoriaeth Effeithlonrwydd arall, yn creu Rhaglen Anelu'n Uchel yr Awdurdod, ac wrth wraidd y Cynllun Gwella Corfforaethol.

Mae'r awdurdod yn credu'n gryf fod **gweithio mewn partneriaeth** yn hanfodol os ydym am gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon mewn sir wledig fel Powys, ac mae gan yr Awdurdod rôl arweiniol mewn amrywiaeth o bartneriaethau aml-asiantaeth.

3. Nodau Buddosddi'r Strategaeth a'r Rhaglen

Y weledigaeth ar gyfer Strategaeth Moderneiddio Addysg Uwchradd ac Ôl-16 Powys yw ***datblygu sector uwchradd ac ôl-16 sy'n cyflwyno addysg ddwyieithog o'r safon uchaf sydd ag ystod eang o gyfleoedd dysgu, sy'n cael ei chefnogi gan gyfleusterau a thechnoleg o safon fyd-eang a fydd yn galluogi holl ddysgwyr Powys i ddatblygu eu sgiliau hyd at y lefel uchaf.***

Mae'r Egwyddorion Allweddol canlynol yn sail i'r Strategaeth:

- **Hawl**
  Dylai'r holl ddysgwyr gael mynediad at gwricwlwm dwyieithog sy'n cwrdd ag ystod eang o anghenion a dyheadau o fewn amser teithio addas;
- **Partneriaeth**
  Rhwydwaith ddysgu o safon fyd-eang a ddarperir trwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng yr Awdurdod, ysgolion a mudiadau partner;
- **Ansawdd – ansawdd dysgu**
  Bydd angen i unrhyw ddatblygiadau sicrhau fod yr ansawdd addysg a hyfforddiant arbennig yn cael eu cynnal a'u cynyddu;
- **Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd**
  Er mwyn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr, dylid creu fframwaith o ddarpariaeth addysg i sicrhau fod darpariaeth addyg yn hyfyw yn addysgol ac ariannol.
- **Yr Amgylchedd Ddysgu a'r Gymuned;**
  Dylai dysgu ddigwydd mewn amgylchedd arbennig sy'n ysbrydoli, sydd ag adnoddau ar gyfer y gymuned gyfan a all gynnig ystod o gyfleusterau wedi'u lleoli gyda'i gilydd, yn cynnwys gofal plant, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac addysg i oedolion.

<u>Mae Amcanion y Strategaeth fel a ganlyn:</u>

- Datblygu a gweithredu rhaglen sy'n cynnig seilwaith addysg uwchradd a dysgu ôl-16 gynaliadwy ym Mhowys dros y 25 mlynedd nesaf, gyda gwell ffocws ar gwrdd â gofynion statudol Mesur Dysgu a Sgiliau 14–19 (Cymru);

- Sicrhau fod gan holl ddysgwyr (11+) Powys fynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu o safon uchel (trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg);

- Ehangu ystod y ddarpariaeth ddysgu o safon uchel sydd ar gael, yn academaidd a galwedigaethol;

- Sicrhau fod holl ddysgwyr (11+) Powys yn medru dysgu mewn lleoliadau sy'n addas ar gyfer y diben hwnnw.

4. Trefniadau Presennol

Mae gan Bowys dair ar ddeg o ysgolion uwchradd yn cynnig addysg i oddeutu 9,000 disgybl 11 – 18 oed, a thair ysgol arbennig ar gyfer 300 o ddysgwyr 2 – 18 oed. Ym mis Medi 2009, roedd 1,465 wedi'u cofrestru yn chweched dosbarth yr ysgolion hynny. Mae'r ysgolion uwchradd yn amrywio o ran maint o 325 disgybl i 1,110.

Mae cyfartaledd maint blynyddoedd ysgolion uwchradd Powys yn gymharol fach ar gyfer blynyddoedd 7 - 11, sef tua 117 ym mhob blwyddyn ym mhob ysgol yn Ionawr 2009, er bod hynny'n amrywio o oddeutu 53 disgybl ym mhob blwyddyn yn Ysgol Bro Ddyfi i 222 yn Ysgol Uwchradd Y Trallwng.

Cynigir addysg cyfrwng Cymraeg yn saith o'r 13 ysgol, er bod yr amrywiaeth o bynciau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio yn ôl pob ysgol. Mae Awdurdod Lleol Powys yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy ysgolion dwy ffrwd.

Mae data gan Gyrfa Cymru[3] yn dangos fod 86% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn aros mewn addysg lawn amser, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 82%. O'r rhain, roedd 52% wedi parhau mewn chweched dosbarth ym Mhowys, ffigwr sydd wedi codi'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. O'r rhai sydd yn aros, mae 86% yn cwblhau cwrs dwy flynedd. Aeth 2.8% i ddysgu yn y gwaith, a 1.9% yn syth i gyflogaeth. Mae lefel y rhai sy'n gadael ysgol heb fynd i fyd addysg na gwaith yn isel ym Mhowys o'i gymharu ag awdurdodau eraill, ar oddeutu 2.1% - y ffigwr isaf yng Nghymru.

Mae ymchwil yn dangos fod mwyafrif y disgyblion blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg lawn amser mewn Coleg Addysg Bellach yn gwneud hynny yng Ngholeg Powys, ond mae llif arwyddocaol o ddysgwyr yn mynd i golegau eraill y tu allan i'r sir.

Aeth 66% o'r dysgwyr a adawodd ysgolion Powys ar ddiwedd blwyddyn 13 yn 2009 ymlaen i Addysg Uwch.

Mae ansawdd yr addysg yn ysgolion uwchradd Powys yn gyson uchel. Mae Asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 3 yn 2009 yn dangos fod disgyblion Powys yn sicrhau safonau sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru, trwy'r Dangosyddion Pynciau Craidd. Mae cyrhaeddiad ar drothwy Lefel 2 hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gan godi'n

[3] Data Cyrchfannau Gyrfa Cymru Powys Morgannwg Ganol 2009

gyson ers 2002. Mae canlyniadau trothwy Lefel 3 hefyd yn uchel o'u cymharu â chyfartaledd Cymru. Mae sgoriau gwerth ychwanegol hefyd wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn cymharu'n ffafriol gyda chanlyniadau Cyfnod Allweddol 2 y Sir.

Mae'r ysgolion yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae datblygiad mentrau fel Llwybrau Dysgu 14 – 19 a'r Fagloriaeth Gymreig yn cynnig cwricwlwm ehangach, ac mae'r ysgolion wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd a gydag eraill i gyflwyno'r cwricwlwm sy'n ehangu. Mae Coleg Powys, Hyfforddiant Powys a darparwyr eraill yn gweithio gydag ysgolion i gynnig cyfleoedd galwedigaethol ar gyfer disgyblion 14 – 19 oed, ac mae'r ysgolion hefyd yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i gynnig cyrsiau ychwanegol. Mae cydweithio wedi bod â darparwyr y tu allan i'r sir ers rhai blynyddoedd, a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r angen i gynnig y nifer mwyaf posibl o gyfleoedd i ddisgyblion Powys gynyddu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae'r Awdurdod yn awyddus i ddefnyddio arbenigedd a chyfleoedd sydd ar gael y tu allan i'r sir.

5. Gyrwyr newid cenedlaethol

a) Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru[4]

b) Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion[5]

c) Llwybrau Dysgu 14 – 19[6]

d) Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif[7]

a) Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant

Ym Medi 2008, cyhoeddodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bolisi ar gyfer trawsnewid darpariaeth ôl-16 fel rhan o'i dyhead a'i strategaeth ar gyfer codi lefel sgiliau, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'[8]. Mae'r polisi'n nodi na fydd ffurf bresennol y darparwyr ôl-16 yn cynnig y seilwaith angenrheidiol i gwrdd â'r dyheadau hyn. Gwahoddwyd partneriaethau blaengar i ddatblygu cynigion a fyddai'n trawsnewid addysg ôl-16 mewn ardaloedd lleol. Nid yw'r polisi'n rhagnodol, ond yn hytrach, mae'n pwysleisio y dylid cael atebion lleol ar gyfer ardaloedd lleol, ac y byddai cydweithio'n elfen hanfodol o unrhyw gynigion. Nodir hefyd y gallai cynigion gynnwys darparwyr ôl-11 os yw hynny'n briodol.

Mae Awdurdod Lleol Powys a Choleg Powys, 'Partneriaeth Ddysgu Powys', wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers nifer o flynyddoedd i archwilio dewisiadau posibl ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn y sir. Mae hyn yn cynnwys Addysg Bellach, chweched dosbarth ysgolion, Dysgu Cymunedol i Oedolion a darpariaeth dysgu yn y gwaith yr Awdurdod a Choleg Powys. Datblygwyd Achos Amlinellol Strategol [9] a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2009. Roedd y ddogfen honno'n archwilio nifer o wahanol ddewisiadau ar gyfer rheoli a llywodraethu darpariaeth ôl-16. Dylid nodi mai'r brif elfen gyffredin rhwng y tri model a ffafrir yw'r egwyddor fod angen cael corff cynllunio ac ariannu canolog fydd â gorolwg dros yr holl ddarpariaeth ôl-16 yn y sir. Gall hyn amlygu mewn nifer o wahanol ffyrdd, a bydd cytundeb arno ar ddiwedd yr Achos Busnes Amlinellol.

[4] Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

[5] Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion – Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

[6] Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14 – 19 – Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002

[7] Crynodeb Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru 2010

[8] Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru – Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Gwaith – Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

[9] Post 16 Learning Infrastructure Strategic Outline Case – RSM Bentley Jennison 2009

Mae'r polisi Trawsnewid yn nodi fod hawl dysgwyr i gael cwricwlwm sgiliau eang yn mynnu fod Partneriaethau Dysgu'n creu dulliau newydd o weithio. Mae'n awgrymu na fydd y *status quo* yn cyflawni'r dyheadau hyn i Gymru o fewn y gyfundrefn gyllido presennol. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau sylweddol i Bowys. Ar y cyfan, nid yw darparwyr unigol yn ddigon o faint i gynnig darpariaethau hyfyw, ac wrth i Bowys, trwy'r cynnig Trawsnewid a'r Bartneriaeth 14 - 19, ddechrau datblygu cwricwla lleol a threfniadau rheoli a chynllunio ar y cyd, mae'n hanfodol ein bod yn dechrau cynllunio'r glasbrint ffisegol ar gyfer adeiladu system addysg a hyfforddiant o safon uchel sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif, a fydd yn darparu'r sgiliau gwaith a'r sgiliau trosglwyddadwy addas a fydd yn cwrdd ag anghenion economi Powys a Chymru.

Dysgu yn y Gwaith

Caiff Dysgu yn y Gwaith ei gynnig gan amrywiaeth o ddarparwyr ym Mhowys. Hyfforddiant Cambrian, Hyfforddiant Powys, Mid and North Wales Training a Choleg Powys yw'r prif ddarparwyr sydd wedi'u lleoli ym Mhowys, er bod tua 40 o ddarparwyr eraill yn cael cytundebau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno hyfforddiant i ddysgwyr yn y sir. Mae Hyfforddiant Powys yn uned fusnes dan adain Cyngor Sir Powys sy'n gweithredu ledled Powys [10].

Fel rhan o'i gynlluniau i drawsnewid y rhwydwaith darparwyr, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n newid ei ffordd o roi cytundebau Dysgu yn y Gwaith o fis Ebrill 2011. Ar hyn o bryd, mae nifer fawr o ddarparwyr Dysgu yn y Gwaith led led Cymru a Phowys, gyda rhai ynghlwm wrth Awdurdodau Lleol neu Sefydliadau Addysg Bellach, rhai mudiadau masnachol a rhai elusennau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gwneud yn glir ei bod am gael cytundebau â llai o ddarparwyr o 2011 ymlaen, ac mae'n annog darparwyr i gydweithio.

b) Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw'r fframwaith polisi cyffredin sy'n ceisio trawsnewid safonau a darpariaeth addysg o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion dros y ddegawd nesaf. Dyma brif bolisi diwygio addysg Cymru, a'r un y mae'r holl bolisïau addysg eraill yn ei ddilyn. Y nodau a'r amcanion yw:

- Sicrhau gwell canlyniadau dysgu a lles ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol economaidd; a

[10] Post 16 Learning Infrastructure in Powys Strategic Outline Case – RSM Bentley Jennison 2009

- Lleihau'r amrywiaeth mewn canlyniadau dysgu o fewn a rhwng ystafelloedd dosbarth, ysgolion ac awdurdodau lleol;

Rhaid i bob lefel o fewn system addysg Cymru gydweithio er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG a'u partneriaid, yn cynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau prawf, ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Plant 2004[11] i gyd-weithio i wella lles plant a phobl ifanc yn eu hardal. Dim ond wrth fynd ati o ddifrif i weithio mewn partneriaeth ar bob lefel wrth gynllunio, rheoli a darparu y gall cyd-weithio o'r fath fod yn effeithiol. Mae ysgolion yn bartneriaid allweddol ar gyfer hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, ac mae angen eu cynnwys yn llawn mewn gwaith ar y cyd.

c) Llwybrau Dysgu 14 - 19

Nod y fenter hon yw trawsnewid darpariaeth ddysgu ar gyfer rhai 14 - 19 oed: "95% o bobl ifanc erbyn 25 oed yn barod ar gyfer cyflogaeth fedrus neu addysg uwch erbyn 2015".

Mae Llwybrau Dysgu 14 - 19 yn cynnwys chwe elfen allweddol a fydd yn sicrhau fod yr holl ddysgwyr yn cael cydbwysedd addas o brofiadau dysgu i gwrdd â'u hanghenion, gyda chefnogaeth ac arweiniad llawn. Mae'r fenter yn canolbwyntio ar ddysgu ffurfiol, dysgu anffurfiol a chyfleoedd dysgu anffurfiol ynghyd â chynnig cefnogaeth briodol i ddysgwyr. Y chwe phrif elfen yw:

? Llwybrau dysgu unigol i gwrdd ag anghenion pob dysgwr;
? Dewis ehangach a hyblygrwydd o ran rhaglenni a dulliau dysgu;
? Craidd dysgu;
? Cefnogaeth Hyfforddwr Dysgu;
? Cefnogaeth bersonol; a
? Cyngor ac arweiniad diduedd o ran gyrfa.

I gefnogi'r fenter hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno ***Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009***[12]***.*** Mae'r Mesur yn rhoi cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru i roi hawl i gael isafswm o bynciau i ddysgwyr 14 - 19 oed. Rhaid i awdurdod lleol greu o leiaf un cwricwlwm lleol ar gyfer yr ardal i alluogi disgyblion i ddewis dilyn llwybr astudio. Rhaid cynnwys isafswm o gyrsiau a chyrsiau galwedigaethol yn y cwricwlwm lleol. Y disgwyl yw y bydd gan bob dysgwr rhwng 14 ac 16 oed ddewis o o leiaf 30 pwnc, gyda 5 ohonynt yn alwedigaethol, erbyn Medi 2012. Bydd gan ddisgyblion sydd am gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr un hawl â disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy

[11] Deddf Plant 2004 – www.opsi.gov.uk
[12] Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 – www.opsi.gov.uk

gyfrwng y Saesneg.

Mae'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer addysg ôl 16 yn debyg. Erbyn Medi 2011, dylai pob dysgwr gael y cyfle i gael o leiaf 30 pwnc ar Lefel 3 (sy'n cyfateb i Lefel A) , gyda phump ohonynt yn alwedigaethol.

d) Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau fod pob ysgol yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif [13]. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer cyflwyno'r rhaglen. Tra bo'r gwaith o lunio diffiniad o 'Ysgol yr 21ain Ganrif' yn cael ei orffen, mae'n amlwg mai'r uchelgais yw cael

- ysgolion sydd wedi'u ffurfio i ymateb i ddulliau newydd o ddysgu;
- amgylchedd sy'n ysbrydoli sy'n addas ar gyfer datblygiadau a thechnolegau newydd ym maes addysg;
- amgylchedd cynaliadwy o safon fyd-eang, sy'n cael ei chefnogi'n llawn gan TGCh, sy'n gyrru gwelliannau mewn safonau addysg;
- adnoddau gwych ar gyfer y gymuned gyfan a all gynnig amrywiaeth o gyfleusterau wedi'u cyd-leoli, megis gofal plant, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a hyfforddiant i oedolion.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynnu fod Awdurdodau Lleol yn datblygu Rhaglenni Amlinellol Strategol ar gyfer anghenion a dyheadau buddsoddiadau cyfalaf ysgolion. Bydd gofyn i Awdurdodau lleol ddangos sut maent yn gweithio â'u partneriaid i weithredu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis Trawsnewid, Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Llwybrau Dysgu 14 - 19 trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

[13] Cymru'n Un – Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru 2007 – Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gyrwyr Newid Lleol:

a) Effaith newid y cwricwlwm;
b) Ffactorau demograffig a niferoedd disgyblion;
c) Hyfywedd ariannol;
d) Addysg Cyfrwng Cymraeg;
e) Cynhwysiant;
f) Ystadau a seilwaith technolegol;

a) Effaith newid y cwricwlwm;

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld newid sylweddol yn y modd y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd. Mae cwricwlwm ysgol ddiwygedig ar gyfer rhai 7 - 16 oed wedi cael ei weithredu yng Nghymru ers Medi 2008[14], gan sefydlu cwricwlwm i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol wrth ystyried anghenion sgiliau ehangach Cymru.

Mae fframwaith sgiliau anstatudol hefyd wedi cael ei chyflwyno ar gyfer rhai 3 - 19 oed, gan roi pwyslais ar ddatblygu sgiliau dysgu, cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a rhifedd. Bydd hyn yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus yn eu cymunedau a'u gweithleoedd.

Y prif newid yn y cwricwlwm sydd wedi wynebu'r sector uwchradd yn ddiweddar yw cyflwyno menter Llwybrau Dysgu 14 - 19 Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r Mesur Dysgu a Sgiliau sy'n mynnu fod Awdurdodau Lleol yn sicrhau fod gan bob dysgwr hawl i gael isafswm o nifer o bynciau.

Mae'r Rhwydwaith 14 - 19, sy'n gweithio ag ysgolion, Coleg Powys a darparwyr eraill, yn gwneud cynnydd sylweddol wrth sicrhau fod gan ddysgwyr fynediad at isafswm o ran nifer o bynciau ledled y sir. Mae'r holl ysgolion yn cyrraedd yr isafswm o ran nifer angenrheidiol y pynciau eleni yng Nghyfnod Allweddol Pedwar, ac mae'r gwaith yn parhau tuag at sicrhau fod yr holl ysgolion yn darparu'r isafswm angenrheidiol yng Nghyfnod Allweddol Pump.

Mae natur ysgolion Powys yn golygu fod nifer fawr o grwpiau Ôl-16 bach, sy'n ddrud i'w cynnal. Mae ymchwil yn dangos fod 68% o bynciau Lefel A yn cael eu dysgu i lai nag wyth o ddisgyblion yn 2009, sy'n golygu cost uchel i bob uned. Bydd sefydliadau sy'n wynebu'r costau uchel hyn, ynghyd â diffygion ariannol mawr, yn cael anhawster cwrdd â'r galw ychwanegol ar gyfer cwricwlwm ehangach, ac ni fyddant yn gallu cynnig llwybrau cynnydd

[14] Manteisio i'r eithaf ar ddysgu – gweithredu'r cwricwlwm diwygedig - Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

addas. Mae perygl gwirioneddol na fydd ysgolion yn medru gwarantu cynaliadwyedd yr isafswm darpariaeth, heb sôn am un ehangach.

Ar hyn o bryd, caiff Llwybrau Dysgu 14 - 19 ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy grant penodol i'r Awdurdod. Un o brif egwyddorion y fenter yw y dylai unrhyw ddarpariaeth newydd ddod yn rhan o ddarpariaeth gynaliadwy, prif ffrwd, ac mae'r Rhwydwaith 14 - 19 a'i phartneriaid wedi ceisio sicrhau fod hyn yn cael ei gynnwys yn y gwaith cynllunio. Hon fydd y flwyddyn olaf lle bydd grant 100% i ariannu darpariaeth 14-19 ac nid yw'n glir sut y bydd Llwybrau Dysgu 14 - 19 yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Serch hynny, mae'n amlwg na fydd bellach yn bosibl dibynnu ar arian grant i gwrdd â'r Mesur.

Mae darparwyr ym Mhowys eisoes wedi gweld pa mor fregus yw'r sefyllfa, gyda rhai ysgolion eisoes yn lleihau nifer y cyrsiau galwedigaethol ychwanegol sy'n cael eu cynnig. Goblygiadau hyn yw bod y ddarpariaeth yn ansefydlog; bydd yn gwneud cynllunio cynnydd yn anodd iawn, ac yn cynyddu costau. Bydd hefyd yn amharu ar ddyletswydd ddeddfwriaethol y Cyngor i sicrhau hawl i isafswm o bynciau i'r disgyblion. Mae'r Rhwydwaith yn y broses o adolygu'r ffordd y caiff arian 14 - 19 ei reoli, ond mae'n amlwg na all y sefyllfa barhau fel y mae ar hyn o bryd.

Mae cynnig cwricwlwm ehangach trwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu heriau penodol. Mae rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd a gyda darparwyr y tu allan i'r sir er mwyn cynnig cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, gan nad yw'r ddarpariaeth honno ar gael yn y sir. Serch hynny, mae cwestiwn o ran pa mor gynaliadwy yw'r cyrsiau hyn, gan nad oes digon o arian i gynnig yr ystod lawn o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, amaethyddiaeth a phynciau yn ymwneud â'r tir, gofal plant a gofal iechyd a chymdeithasol yw'r unig bynciau galwedigaethol sy'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhowys, er bod y Rhwydwaith 14 - 19 ac ysgolion yn gweithio'n galed iawn i ddatblygu ystod ehangach trwy bartneriaethau â darparwyr y tu allan i'r sir. Nid yw lleoliad daearyddol yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwneud cyd-weithio'n hwylus na chost-effeithiol, a chaiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan niferoedd isel y disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae cynlluniau ar waith ar gyfer peilot mewn dau grwp cwricwlwm ardal leol [15] o fis Medi 2010 yng ngogledd a de Powys. Y nod yw y bydd disgyblion yn medru cael pynciau ychwanegol ar safleoedd y tu allan i'w hysgolion arferol, yn cynnwys ysgolion eraill, Coleg

[15] Strategaeth 14 – 19 Powys – Cyngor Sir Powys 2010

Powys, a darparwyr hyfforddiant eraill, weithiau y tu allan i'r sir. Bydd hyn yn digwydd trwy gyfuniad o ddisgyblion yn teithio i sefydliadau eraill, staff yn teithio rhwng sefydliadau, a defnydd cynyddol o dechnoleg trwy fideo-gynadledda ac e-ddysgu. Byddai cynnig cwricwlwm ehangach o'r fath yn golygu fod angen edrych am ddulliau newydd ac arloesol o ddysgu.

Dylid pwysleisio hefyd mai'r targedau a nodwyd eisoes yw'r targedau ISAF. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i ehangu'r ddarpariaeth, h.y. fod yr Awdurdodau a'u partneriaid yn ceisio cynnig darpariaeth sydd mor eang ag sy'n bosibl. Uchelgais Rhwydwaith 14 - 19 Powys, gyda chefnogaeth yr Awdurdod a'i bartneriaid, yw bod dysgwyr Powys yn medru cael ystod mor eang o gyfleoedd o safon uchel ag sy'n bosibl.

b) Ffactorau demograffig a niferoedd disgyblion

Mae niferoedd y disgyblion wedi bod yn gostwng ym Mhowys ers 2005. Yn Ionawr 2010, roedd 9019 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn ysgolion Uwchradd Powys, ond mae disgwyl i'r ffigwr hwnnw ostwng i oddeutu 8,000 yn 2015. Bydd cyfartaledd y niferoedd ym mlwyddyn 7 yn gostwng o oddeutu 100 yr ysgol erbyn 2015.

Gyda'r gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd, disgwylir y bydd nifer y myfyrwyr chweched dosbarth neu goleg hefyd yn gostwng wrth i'r grwpiau blwyddyn llai weithio'u ffordd trwy'r ysgolion uwchradd, gan arwain at gynnydd yng nghost uned.



Ar hyn o bryd, mae 15% o'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion uwchradd yn wag, ac er bod 2 ysgol yn orlawn, mae lleoedd gwag yn y gweddill. Cost darparu hyn yw tua £1m. Mae'r rhagolygon yn nodi y bydd 25% o'r lleoedd yn wag ymhen 5 mlynedd, gyda chost o oddeutu £2m.

Gan fod Powys yn sir fawr sy'n rhannu ffiniau ag 11 awdurdod lleol arall, mae'n naturiol y bydd rhai disgyblion yn croesi ffiniau er mwyn cael darpariaeth, yn dibynnu ar eu lleoliad daearyddol. Bydd newidiadau i Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod yn effeithio ar symudiadau disgyblion yn y dyfodol, gan fod y polisi arfaethedig yn nodi mai dim ond i ysgol agosaf y disgybl sy'n darparu addysg yn y cyfrwng iaith gofynnol y bydd cludiant ar gael. Gan fod y polisi presennol yn parhau i fod yn rhannol seiliedig ar drefniadau'r sir cyn 1974, pan y'i gweithredir disgwylir efallai bydd rhai ysgolion yn gweld gostyngiad mewn niferoedd disgyblion. Fel pob Awdurdod Lleol, bydd Powys yn gyfrifol am ariannu disgyblion sy'n byw ym Mhowys sy'n teithio i du allan i'r sir, os mai dyna'r ddarpariaeth agosaf briodol. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn darparu cludiant cyfartal i bobl ifanc rhwng 16 - 18 sydd am gael mynediad at addysg mewn dosbarthiadau chweched dosbarth neu golegau addysg bellach.

Mae'n debygol hefyd y bydd costau cludiant yn cynyddu oherwydd costau tanwydd uwch a chynnydd mewn dysgu ar y cyd.

c) Hyfywedd ariannol

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ariannu ysgolion uwchradd yn ôl y fformwla ariannu deg y cytunwyd arni. Darparir arian 16 - 19 gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn ôl y system gynllunio ac ariannu genedlaethol, sy'n seiliedig yn bennaf ar niferoedd y dysgwyr a phwysoliad y cyrsiau, ond sydd hefyd yn cydnabod materion fel addysg cyfrwng Cymraeg, amddifadedd a natur wasgaredig.

Yn 2010-11, y gyllideb ar gyfer ysgolion uwchradd oedd £35.3m gyda £6.5m o hyn yn dod o ddarpariaeth ôl-16 yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae tua 85% o'r holl gyllideb ddirprwyedig yn seiliedig ar y disgyblion, tra bo gweddill yr arian yn cael ei ddyrannu yn ôl ffactorau safleoedd ac ati. Gyda'r gostyngiad a ragwelir mewn niferoedd disgyblion, bydd yr arian sydd ar gael trwy'r elfen disgyblion £3m y flwyddyn yn llai ar gyfer ysgolion uwchradd o fewn 6 mlynedd.

Mae Powys wedi adolygu ei fformwla'n ddiweddar, ac mae model newydd, seiliedig ar y cwricwlwm wedi cael ei gyflwyno, sy'n cynnwys nodi isafswm staff sydd eu hangen i gyflwyno addysg ym mhob ysgol yn seiliedig ar y nifer o ddysgwyr ymhob blwyddyn.

Mae'r ysgolion wedi gweld gostyngiad yn eu cyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf, a gyda'r gostyngiad a ragwelir mewn niferoedd, mae'r sefyllfa sy'n wynebu ysgolion yn argyfyngus. Ers 2006, collwyd cyfanswm o £7m o gyllidebau ysgolion uwchradd wrth i gyllidebau'r llywodraeth ganolog gael eu gostwng. Ar hyn o bryd, mae gan bump o'r 13 ysgol gyllidebau heb eu trwyddedu. Yn Ebrill 2010, rhagwelwyd y byddai'r diffyg cronnus i'r Ysgolion Uwchradd erbyn 2011/12 yn £2.3m, gan gynyddu i £6.5m erbyn 2014. Wrth i nifer y disgyblion ostwng, bydd yr ysgolion yn cael eu gorfodi i ostwng nifer yr athrawon a gyflogir i fantoli'r gyllideb. I'r holl gyllidebau gael eu mantoli erbyn 31 Mawrth 2014 byddai angen i'r ysgolion golli rhwng 15 - 20 athro bob blwyddyn (75 athro i gyd).

Mae'r ysgolion eisoes wedi cymryd camau llym a phoenus i geisio mantoli'r cyllidebau. Cafwyd gostyngiad yn nifer y staff dysgu a'r staff cynorthwyol, a llai o wariant ar gostau adeiladu a chostau'r pen. Mae hyn wedi arwain at ddosbarthiadau mwy, a lleihau'r dewisiadau cwricwlwm sydd ar gael a gweithgareddau cyfoethogi, ynghyd â chael effaith ar forâl staff a disgyblion. Mae'r heriau cyllidebol sy'n wynebu ysgolion yn cael eu gwaethygu ymhellach gan y pwysau i gynnig rhagor o bynciau a'r hinsawdd ariannol anhysbys sy'n wynebu'r sir.

Mae cynaliadwyedd y seilwaith presennol nawr ac yn y tymor hir yn peri pryder mawr. Mae'r fformwla wedi cael ei hadolygu, ond mae hynny wedi methu cael gwared o'r diffygion sy'n bodoli a'r rhai a ragwelir. Mae'r modd presennol o ddarparu addysg a hyfforddiant yn annigonol o ran cynnal nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion; dyblygu darpariaeth 16-19 mewn ysgolion; arwain at lai o ddewis i nifer o ddysgwyr; gormod o ddosbarthiadau ôl-16 bach; a chynnydd sylweddol yn y lleoedd gwag a ragwelir.

d) Addysg Cyfrwng Cymraeg

Mae Powys yn bresennol yn dilyn polisi o gyflwyno addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy system ddwy ffrwd. Mae'r Cynllun Addysg Gymraeg yn nodi fod gofyn i ysgolion sicrhau dilyniant ieithyddol parhaus ym mhob cyfnod allweddol, i sicrhau cyfle cyfartal, ac i gyfrannu tuag at dwf disgyblion o ran sgiliau iaith Gymraeg.

Cyhoeddwyd dogfen 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'[16] Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007. Mae hon yn sefydlu diffiniadau a chategorïau ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel cyfrwng cyfarwyddyd a busnes arferol yr ysgol:

Categori 1: Ysgolion cyfrwng Cymraeg;

Categori 2: Ysgolion dwyieithog (gyda phedwar is-gategori yn ôl canran y pynciau a gaiff eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac oes darpariaeth gyfatebol yn Saesneg);

Categori 3: Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg

Categori 4: Ysgolion cyfrwng Saesneg;

Mae gan bump o'r 13 ysgol ym Mhowys ffrydiau cyfrwng Cymraeg, ac yng Nghategori 2, gyda dwy ysgol arall yn y trydydd categori. Mae ystod y pynciau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio'n fawr rhwng yr ysgolion hyn. Dim ond mewn pedair ysgol y ceir darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg, fel arfer i nifer fach o ddisgyblion.

Mae'r sefyllfa gyllidebol sy'n wynebu addysg yn y sir ar hyn o bryd, ynghyd â'r gofyn i ehangu'r dewis o gyrsiau sydd ar gael, yn academaidd a galwedigaethol, yn rhoi pwysau ychwanegol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae cynnal ysgol ddwy ffrwd yn gostus, gan fod dyblygu costau dysgu ac adnoddau, a hynny i garfannau llai fel arfer.

- Yn ne'r sir, mae nifer y pynciau Cyfnod Allweddol 3 a 4 a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng ers 2005, oherwydd:
- gostyngiad yn nifer y pynciau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddwy ysgol; a
- chynnydd yn nifer y pynciau drwyddi draw a ddysgir yn CA4, a gan eu bod yn bynciau cyfrwng Saesneg yn unig ar y cyfan, mae canran y cyrsiau cyfrwng Cymraeg wedi gostwng.

Mae'r dilyniant i ddisgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg wrth iddynt fynd i ysgolion uwchradd canol a de'r Sir yn peri pryder arbennig. Mae hyn yn rhoi'r disgyblion cyfrwng Cymraeg dan anfantais ieithyddol ac addysgol. Nid yw'r Awdurdod yn cynnig dilyniant ieithyddol nac addysgol addas ar gyfer y disgyblion hyn, a gallai wynebu her gyfreithiol.

Mae'r sefyllfa'n well yng ngogledd y sir, ond mae'r darparwyr yn dal i wynebu'r her o gynnal darpariaeth cost effeithiol. Nid yw Coleg Powys yn cynnig darpariaeth

[16] Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007

galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, felly mae angen i ysgolion gydweithio â'r rhwydwaith ysgolion cyfrwng Cymraeg genedlaethol er mwyn cael ateb.

Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu ar gyfer 18 mis olaf y Cynllun Iaith Gymraeg presennol, sy'n nodi fod angen dynodi Ysgolion Uwchradd Penodol fel canolfannau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn hyrwyddo canoli darpariaeth er mwyn canolbwyntio adnoddau, creu'r nifer angenrheidiol o ddisgyblion, ac yn cynnig economïau maint a fydd yn arwain at hyfywedd darpariaeth wrth ganiatáu ar gyfer cynllunio dilyniant ieithyddol mewn modd digonol.

e) Cynhwysiant

Ar hyn o bryd, mae 3 Ysgol Arbennig ym Mhowys sy'n cynnig addysg a gofal i tua 300 o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n gymhleth iawn mewn rhai achosion. Mae'n wir fod yn rhaid i nifer fawr o'r plant hyn deithio'n bell iawn o'u cartrefi i'w ysgolion yn Aberhonddu neu'r Drenewydd, ac mae'r Cyngor o'r farn fod angen darpariaeth fwy lleol ar gyfer y grwp hwn o gleientiaid ledled Powys. I gyflawni hyn, mae anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn rhaglen foderneiddio ysgolion y Cyngor, ac mae hynny'n arwain at sefydlu dysgu a meysydd eraill o fewn ysgolion cynradd ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y cynlluniau ar gyfer ysgolion newydd yn Ystradgynlais yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn darpariaeth lleol ar gyfer y rheiny gyda'r anghenion arbennig mwyaf.

Bydd hyn yn cael ei ymestyn i Foderneiddio Ysgolion Uwchradd/Ôl-16, er mwyn creu rhagor o amgylcheddau dysgu ar gyfer y grwp oedran hwn o fewn campws yr ysgol. Wrth i adnoddau gael eu datblygu, bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i symud o'u hysgolion arbennig i amgylchedd ddysgu sy'n cael ei darparu'n fwy lleol. Mae'r strategaeth yn cynnwys y posibilrwydd y bydd staff o'r ysgolion arbennig yn gweithio ar sail gwaith allanol yn hyn o beth, ac ar sail dull "canolfan a changhennau" (hub and satellite).

Rhagwelir y bydd nifer y plant sy'n mynychu ysgolion arbennig ym Mhowys yn gostwng yn sylweddol dros amser, gyda dim ond y plant sydd â'r anableddau mwyaf difrifol yn mynychu ysgol arbennig. Bydd y plant hynny sydd ag anableddau llai difrifol yn cael eu cefnogi mewn darpariaeth fwy lleol. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wrthi'n llunio model allai arwain at weld yr ysgolion arbennig presennol yn newid i fod yn ganolfannau asesu a chefnogi ehangach, lle bydd timau aml-asiantaeth yn gweithio i gefnogi'r plant hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Yn amlwg, bydd datblygu darpariaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am wariant cyfalaf sylweddol, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Achos Busnes Amlinellol.

g) Ystadau a Thechnoleg

Mae cyflwr presennol ysgolion uwchradd Powys yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ond yr amcangyfrif ar gyfer cost y gwaith atgyweirio sydd ei angen ar unwaith yw £34m. Wrth i gyllidebau ysgolion leihau, mae llai'n cael ei wario ar gynnal a chadw adeiladau ysgolion, ac mae hyn yn arwain at rai ysgolion yn torri rheoliadau iechyd a diogelwch mewn rhai achosion. Ar y cyfan, mae'r ystâd ysgolion yn hen, gyda rhai eithriadau, ac nid yw'n cwrdd â diffiniad Ysgolion yr 21ain Ganrif o amgylchedd addas ar gyfer y diben, fel ag amlinellwyd gan Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae tystiolaeth fod adeiladau newydd yn cyfrannu tuag at godi safonau addysgol, fel y cefnogwyd yn adroddiad Estyn yn 2007, oedd yn cadarnhau fod gwelliannau i amgylchedd yr ysgol yn cael effaith lesol ar ansawdd dysgu, a bod ymddygiad y disgyblion hefyd yn gwella.

Mae Awdurdod Lleol Powys wedi ymrwymo i gefnogi egwyddorion Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Y bwriad yw i unrhyw waith ad-drefnu ysgolion uwchradd gael ei gefnogi gan fuddsoddiad cyfalaf sylweddol.

Mae'r defnydd o dechnoleg yn ganolog i drawsnewid addysg a hyfforddiant ym Mhowys. Y weledigaeth yw gwella dysgu trwy ddefnyddio technoleg ddigidol, a all fynd y tu hwnt i ffiniau traddodiadol yr ysgol. Mae amgylchedd cyfoethog o ran TGCh yn caniatáu i athrawon a dysgwyr weithio mewn gwahanol ffyrdd ac yn ategu diffiniad ysgol yr 21ain ganrif. Rhaid i ni sicrhau fod gan yr holl blant a phobl ifanc sydd mewn addysg y lefel briodol o ddysg ac adnoddau technegol i'w galluogi i ddatblygu camau cyntaf allweddol y sgiliau bywyd digidol a'r sgiliau gwaith digidol.

Caiff ei gydnabod yn eang fod yr economi wybodaeth fyd-eang angen i bobl ifanc fod yn ddysgwyr annibynnol, yn hyderus yn eu gwybodaeth o sut i ddysgu ac yn medru cwrdd â gofynion cynyddol gymhleth bywyd mewn byd sy'n newid yn gyson ac yn esblygu'n dechnolegol.

Mae'r Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr [17], dan arweinyddiaeth Sir Jim Rose, yn argymell fod y rhyngrwyd yn cael ei hymwreiddio yn y cwricwlwm. Mae BECTA

[17] Adolygiad annibynnol o ddysgu darllen cynnar – Adran Addysg a Sgiliau 2006

wedi rhybuddio os na chaiff technoleg gwybodaeth (TGCh) ei ymwreiddio i'r cwricwlwm, y bydd perygl bod is-ddosbarth digidol yn amlygu.

Mae Strategaeth TGCh Cyngor Sir Powys 2009-2012 yn gosod gweledigaeth y Cyngor am seilwaith TGCh ar gyfer ei holl wasanaethau cyhoeddus a'u defnyddwyr. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth TGCh yn ystyried y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan foderneiddio ysgolion ar gyfer ail-gynllunio darpariaeth TGCh mewn ysgolion at ddibenion addysg a dysgu, ac ar gyfer gweinyddu a rheoli ysgolion yn effeithiol ac effeithlon.

Mewn dadansoddiad SWOT diweddar o'r ddarpariaeth 14-19 ym Mhowys a gynhaliwyd gan Fwrdd Partneriaeth 14-19 Powys fel rhan o'i gynllun strategol tair blynedd, nodwyd seilwaith TGCh wael Powys yn rhai rhannau o'r Rhwydwaith fel gwendid, a nodwyd fod cyfyngiad ar y defnydd llawn o ddysgu TGCh.

Byddai'r agenda Trawsnewid ym Mhowys yn galluogi'r holl ddysgwyr i fanteisio ar seilwaith TGCh yr 21ain ganrif, fyddai'n eu cefnogi yn eu dysgu ac yn eu harfogi i gyflawni eu potensial yn y byd digidol.

7. Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Mae Awdurdod Lleol Powys wedi ymrwymo i sicrhau y bydd moderneiddio yn arwain at y canlynol:

- Gwell canlyniadau dysgu i'r holl ddysgwyr;
- Bod yr holl ddysgwyr yn medru cyflawni eu potensial addysgol a chymdeithasol i'r eithaf;
- Seilwaith fforddiadwy, sy'n cynnig cynaliadwyaeth tymor hir;
- Seilwaith sy'n galluogi'r holl ddysgwyr i gael mynediad at ystod eang o ddarpariaeth o safon uchel o fewn pellter daearyddol rhesymol,
- Seilwaith sy'n seiliedig ar amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif;

Dylai unrhyw waith ad-drefnu ysgolion sicrhau y gall ysgolion ddarparu ar gyfer anghenion yr holl ddysgwyr a'u cymunedau. Mae hwn yn gyfle unigryw i fanteisio ar yrwyr newid eraill, yn cynnwys agwedd holistig tuag at ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, harneisio gwaith aml-asiantaeth trwy weithredu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc[18], a chyfrannu tuag at adfywio ein cymunedau a datblygiad economaidd y sir.

[18] Cynllun Plant a Phobl Ifanc Powys – Cyngor Sir Powys 2008

8. Argymhellion a Dewisiadau

Cynigir nifer o argymhellion tymor byr a fydd yn galluogi gweithredu newid yn y cwricwlwm dros y ddwy flynedd nesaf a hefyd yn help i fynd i'r afael â'r anawsterau ariannol presennol sy'n wynebu Powys. Serch hynny, mae'n hanfodol fod yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chynigion tymor hirach ar gyfer ad-drefnu'r sector uwchradd ac ôl-16. Rhaid pwysleisio mai gwneud dim fydd y cynnig mwyaf niweidiol ar gyfer addysg uwchradd ym Mhowys yn y tymor hir gan na fydd y sector bellach yn hyfyw felly**.**

Argymhellion tymor byr (2010 - 2012):

- Cynllun peilot cwricwlwm ardal leol ar gyfer 14 - 19 sy'n cynnwys trefniadau cynllunio ar y cyd;
- Archwilio pa mor ymarferol fyddai trefniadau llywodraethu gwahanol yn gysylltiedig â chwricwlwm ardal, yn seiliedig ar fodelu comisiynnu;
- Drafftio Cynllun Iaith Gymraeg newydd; gweithredu'r argymhellion yn y Cynllun;
- Cynnal gwerthusiad o'r Fformwla Ariannu Teg Ysgolion Uwchradd;
- Gweithredu Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- Cynnal astudiaeth dichonolrwydd fanwl o fodel rheoli 3 - 19 mewn un ardal ym Mhowys;
- Cynnal astudiaeth dichonolrwydd fanwl ar gyfer sefydlu Canolfannau Cymunedol a Sgiliau Integredig yng Ngogledd, Canol a De Powys;
- Datblygu rhagor o gyfleoedd i gyflwyno llwybrau dysgu yn y gwaith ar gyfer rhai 14 - 19 oed trwy gyflwyno trefniadau cydweithio rhwng darparwyr;
- Hwyluso datblygu Strategaeth TGCh Powys ar gyfer Dysgu, mewn partneriaeth â'r holl ddarparwyr dysgu;
- Ymchwilio i ddulliau o leihau adnoddau dros ben mewn ysgolion trwy ddefnyddio adeiladau i'w llawn potensial i greu'r amgylchedd dysgu gorau posibl ar gyfer y gymuned a chael gwared ar adeiladau sydd ddim yn cael eu defnyddio e.e. cael gwared ar adeiladau anaddas o safleoedd ysgol.

Dewisiadau tymor hir ar gyfer cyflwyno a llywodraethu Addysg Uwchradd ac Ôl-16:

Cyflwyno

Argymhellir fod y modelau cyflwyno canlynol yn cael eu dadansoddi a'u gwerthuso'n fanwl, cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar unrhyw ddewisiadau a ffafrir:

Model 1: Gwneud dim (seilwaith presennol)

Model 2: Canolfannau Dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 19 mlwydd oed +

Model 3: Canolfannau Dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 14 – 19 mlwydd oed+

Model 4: System Drydyddol – ysgolion yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 16 mlwydd oed yn unig; addysg ôl-16 yn cael ei ddarparu gan drefniant arall;

Model 5: Consortia Ardal ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 19 mlwydd oed;

Model 6: Consortia Ardal ar gyfer disgyblion rhwng 16 – 19 mlwydd oed;

Model 7: Ysgolion Addysg Gyfan ar gyfer disgyblion rhwng 3 – 19 mlwydd oed;

Disgwylir y bydd unrhyw ad-drefnu o ysgolion yn cael ei gefnogi gan y trawsnewid o agweddau i addysgu a dysgu, yn enwedig trwy'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae hyn hefyd yn cynnwys trawsnewid ein hagwedd tuag at addysgu a dysgu trwy'r defnydd o TGCh a Thechnolegau Digidol. Bydd amgylchedd sydd ar y blaen o ran TGCh yn rhoi'r cyfle i athrawon a dysgwyr i weithio mewn gwahanol ffyrdd. Wrth i ni ddatblygu ein seilwaith, mae'n rhaid i ni sicrhau fod pob dysgwr yn cael ei gefnogi gan y lefel cywir o ddysgu ac adnoddau technegol i ddatblygu eu sgiliau.

Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog o fewn pob un o'r modelau penodol hyn, yn ogystal â photensial unrhyw fodel i adlewyrchu gwir ethos y Strategaeth Gwasanaethau Bro[19]. Bydd rhaid i gyfleoedd ar gyfer un dull o reoli amrywiaeth o wahanol wasanaethau'r Cyngor o fewn cymunedau fod yn ffactor fel modd o sicrhau mynediad effeithlon at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Bydd y modelau yn cael eu gwerthuso er mwyn deall sut y maen nhw'n cyfrannu at ddatblygiad addysgol dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ac anghenion dysgu arbennig.

[19] Strategaeth Gwasanaethau Bro 2010

Llywodraethu Addysg Ôl-16

Argymhellir fod y modelau llywodraethu canlynol, a ddynodir yn Achos Amlinellol Strategol Seilwaith Dysgu Ôl-16[20] yn cael eu gwerthuso ochr yn ochr â'r modelau cyflwyno.

Dewis 1: System drydyddol, yn cael ei llywodraethu gan Goleg Powys;
Dewis 2: Corff Comisiynu – trefniant ar y cyd rhwng yr Awdurdod Lleol a Choleg Powys;
Dewis 3: Sefydliad Addysg newydd i Bowys – creu sefydliad newydd a fydd yn cynnwys yr Awdurdod Lleol a Choleg Powys;

Fel y soniwyd eisoes, yr elfen gyson allweddol rhwng y tri dewis yw'r egwyddor y cytunwyd arno, fod angen cael corff cynllunio ac ariannu canolog a fydd yn goruchwylio'r holl addysg ôl-16 yn y sir.

[20] Post-16 Learning Infrastructure Strategic Outline Case – RSM Bentley Jennison 2009

9. Disgrifiad o'r Modelau:

Model 1: Gwneud Dim – seilwaith bresennol (gweler dudalen 11)

Model 2: Canolfannau Dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 19 mlwydd oed +

Mae'r modelau hyn yn seiliedig ar y syniad o Ganolfannau Dysgu, trwy ddull partneriaeth rhwng yr Awdurdod a Choleg Powys, ond hefyd yn cynnwys darparwyr o bob sector.

Byddant yn ganolfannau a all gynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf, wedi'u cefnogi gan y dechnoleg ddiweddaraf, gydag ôl-troed carbon isel. Gallai'r Canolfannau Dysgu hyn gynnig gwell addysg ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn ogystal â darpariaeth sgiliau ar gyfer y gymuned ehangach. Gallai ysgolion sydd ddim wedi'u lleoli yn y Ganolfan Ddysgu gynnig darpariaeth graidd gyfyngedig ôl-16, ond gan gyd-weithio â'r Ganolfan Ddysgu i gynnig dewis ehangach. Gellid lleoli'r canolfannau hyn ar safleoedd ysgolion sy'n bodoli neu ar safleoedd wedi'u rhannu gyda Choleg Powys a darparwyr eraill, yn ogystal â chynnig cyfleusterau cymorth cymunedol ychwanegol megis gwasanaethau hamdden ac ieuenctid.

Bydd faint o fuddsoddiad cyfalaf fydd ei angen yn dibynnu ar y dewis a ffafrir, ond bydd yn gyfuniad o adeiladu o'r newydd a gwaith adnewyddu/ailfodelu. Bydd angen buddsoddiad sylweddol hefyd mewn technoleg er mwyn cefnogi a hwyluso rhannu darpariaeth rhwng y Ganolfan a'r rhwydwaith ysgolion lleol. Byddai hyn yn arwain at leihau'r angen am deithio ac yn cyfrannu at greu Rhwydwaith Ddysgu Rhithiol. Mae gan dechnoleg y potensial o drawsnewid profiad dysgwr a gall Canolfan Ddysgu fod yn ganolbwynt technolegol i'r rhwydwaith ysgolion lleol.

Mae'r modelau hyn wedi'u llunio'n seiliedig ar yr angen i greu sefydliadau mwy, gyda niferoedd uwch o ddisgyblion i sicrhau effeithlonrwydd o ran costau, niferoedd digonol o staff a hyblygrwydd i allu datblygu cwricwlwm, yn y ddwy iaith. Mae Polisi Trawsnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu y dylai chweched dosbarth fod yn o leiaf 150 o ran maint, ac mae angen i ni ystyried hyn.

Bydd angen ystyried nifer a lleoliad y Canolfannau fydd eu hangen i gwrdd ag anghenion dysgwyr a chymunedau ledled y sir, ond hefyd i sicrhau hyfywedd y sector yn y tymor hir.

Mae cyfle i ddatblygu ac arbenigo mewn addysg cyfrwng Cymraeg ôl-11 trwy ganoli darpariaeth yn unrhyw rai o'r Canolfannau, gan fod hynny'n galluogi ateb cost-effeithiol, llwybrau dilyniant a niferoedd digonol.

Cryfderau a Gwendidau

Efallai mai hwn fyddai'r dewis mwyaf radical pe byddai gostyngiad yn nifer y safleoedd ysgolion, a fyddai'n arwain at yr aflonyddu mwyaf o fewn cymunedau. Mae posibilrwydd o effeithio ar ansawdd addysg a chanlyniadau dysgwyr os bydd ysgolion llwyddiannus yn cau, ond bydd yn ymdrin â lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. Disgwylir y byddau canolfannau dysgu yn cynnig rhagor o ddewis a chyflwyno'r dewis hwnnw'n fwy effeithlon, ond byddai cynnydd yn yr amser teithio i ddysgwyr. Mae ofn y byddai'r canolfannau dysgu hyn yn rhy fawr (2,000+ o ddysgwyr) ac y byddai diffyg arbenigedd ym Mhowys i reoli sefydliadau mawr, ynghyd â phryderon am ofal a chefnogaeth bugeiliol. Bydd teithio ychwanegol i'r Canolfannau'n cynyddu costau ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar ddisgyblion.

Mae'r model yn darparu ateb cost-effeithiol posibl trwy alluogi darpariaeth ehangach, gan gynnwys darpariaeth galwedigaethol ar safleoedd penodol. Bydd sefydliadau mwy o faint yn addas ar gyfer grwpiau mwy o faint, sy'n fwy cost effeithiol ac yn hyfyw yn addysgol.

Model 3: Canolfannau Dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 14 – 19 mlwydd oed+

Mae'r model hwn yn debyg i Fodel 2, ond yn darparu addysg yn benodol ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 - 19 ar ystod o brif safleoedd. Bydd darpariaethau academaidd a galwedigaethol mwy eang yn cael eu darparu o'r safleoedd hyn. Bydd plant yn symud i Ganolfan Dysgu 14 – 19 i dderbyn eu haddysg yng Nghyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5. Bydd rhaid ystyried p'un ai os bydd addysg gynradd a Chyfnod Allweddol 3 yn cael eu darparu mewn ysgolion ar gyfer plant 3 - 13 oed, neu 3 - 7, 7 - 13 oed.

Fel Model 2, mae gan dechnoleg le pwysig i gefnogi dysgwyr ac athrawon, gan allugoi'r Ganolfan i fod yn ganolbwynt i'r rhwydwaith ysgolion lleol. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn yr angen i deithio.

Cryfderau a Gwendidau

Y dewis hwn sydd â'r potensial i gynnig y ddarpariaeth fwyaf ar gyfer rhai 14 - 19 oed, yn cynnwys cymysgedd o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Dyma'r dull mwyaf cost-effeithiol o ddiwallu'r Mesur gan fod cyfle i ddatblygu'r niferoedd digonol.

Bydd materion yn ymwneud â throsglwyddo rhwng CA2 a CA3 yn cael eu hystyried wrth i ysgolion fedru canolbwyntio'n benodol ar yr ystod oedran hon. Serch hynny, efallai y bydd anawsterau wrth drosglwyddo o CA3 i CA4, gyda gostyngiad mewn safonau – a hynny ar adeg allweddol yn addysg unigolyn ifanc.

Mae cwestiwn hefyd os oes niferoedd digonol i ganiatau i ysgolion gynnig y cwricwlwm priodol os bydd dwy flwyddyn ysgol yn cael eu tynnu o'r sector uwchradd.

Model 4: System Drydyddol – ysgolion yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 16 mlwydd oed yn unig; addysg ôl-16 yn cael ei ddarparu o dan trefniant arall;

Bydd y dewis hwn yn arwain at system drydyddol yn cymryd lle chweched dosbarth mewn ysgolion. Ni fyddai'r ysgolion yn gyfrifol am ddysgu. Bydd y cyfrifoldeb am drefniant rheoli a llywodraethu dysgu ôl-16 yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall e.e. Coleg Powys, neu i gorff comisiynu ar y cyd rhwng yr Awdurod Addysg a Choleg Powys, neu i sefydliad hollol arwahan fel y 'Powys Education Institution' (PEI). Byddai ysgolion uwchradd yn rhai 11 – 16, neu 3 – 16, lle byddai hynny'n bosibl.

Bydd rhaid i dechnoleg barhau i chwarae rhan pwysig er mwyn hybu a chefnogi dysgu o fewn y model hwn.

Cryfderau a Gwendidau

Credir y byddai'r model hwn yn darparu arbedion mawr mewn costau yn y ddarpariaeth uniongyrchol ond gallai arwain at gostau ychwanegol arwyddocaol o ran cludiant o'r cartref i'r coleg. Gallai gynyddu'r ystod o bynciau sydd ar gael ôl-16, yn enwedig y dewis galwedigaethol. Byddai'n darparu amgylchedd ôl-16 y byddai oedolion yn fodlon ei ddefnyddio ac yn hybu dysgu gydol oes ym mhob grwp oedran a grwp cymdeithasol. Mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer economïau maint ar gyfer rhai 3-16 oed.

Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod ysgolion uwchradd heb ddosbarthiadau chweched dosbarth; gallai hyn effeithio ar gynnydd yr ysgol o ran ethos a gosod dysgwyr diamddiffyn mewn amgylchedd sydd â fwy o risg.

Model 5: Consortia Ardal ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 19 mlwydd oed;

Bydd ysgolion yn gweithredu fel un 'Consortiwm Ardal' ar gyfer yr holl ddysgwyr rhwng 11 a 19 mlwydd oed.

Bydd ysgolion o fewn pob Consortiwm yn cydweithio â'i gilydd a gyda Choleg Powys a darparwyr eraill i gynnig un prosbectws i'r holl ddisgyblion. Bydd darpariaeth yn cael ei rannu rhwng ysgolion, i gael niferoedd digonol a hyfyw. Efallai hefyd y bydd angen i athrawon/darlithwyr symud rhwng gwahanol leoliadau, a bydd fideo-gynadledda a TGCh yn hanfodol ar gyfer dysgu effeithiol. Gallai disgyblion hefyd deithio rhwng gwahanol leoliadau ond dylai'r defnydd o dechnoelg leihau hyn.

Byddai angen trafodaeth bellach ar lywodraethu'r Model Consortiwm Ardal, ond byddai'n hanfodol i sicrhau fod Consortiwm yn cael ei chefnogi gan gytundebau sy'n clymu'r gwahanol sefydliadau a threfniadau rhwng partneriaid. Mae angen hyn i sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd parhaus unrhyw bartneriaeth, ynghyd â darparu canllawiau cryf ar gyfer protocolau gweithredu. Gallai hyn fod ar ffurf Memorandwm Dealltwriaeth syml hyd at un trefniant rheoli a llywodraethu ar gyfer yr ardal. Mae yma gyfle hefyd i gynnwys trefniadau rheoli lleol, allai gynnwys meysydd gwasanaeth eraill, megis hamdden.

Model 6: Consortia Ardal ar gyfer disgyblion rhwng 16 – 19 mlwydd oed;

Mae hwn yn debyg i'r Model Consortiwm Ardal, ond y byddai cydweithio ar gyfer ôl-16 yn unig. Mae yna nifer o opsiynnau gwahannol o fewn y Model yma.

a) Bydd ysgolion o fewn Consortiwm yn cydweithio â'i gilydd a gyda Choleg Powys a darparwyr eraill i gynnig un prosbectws i'r holl fyfyrwyr. Bydd darpariaeth yn cael ei rannu rhwng ysgolion, i gael niferoedd digonol a hyfyw. Efallai y bydd angen i athrawon/darlithwyr symud rhwng gwahanol leoliadau, a bydd y defnydd o dechnoleg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dysgu. Gallai disgyblion hefyd deithio rhwng gwahanol leoliadau, ond eto bydd y defnydd o dechnoleg yn lleihau yr angen am deithio.

b) Serch hynny, byddai'n bosibl i un safle o fewn Consortiwm gael ei ddynodi'n Prif Ganolfan Addysg Ôl-16, lle byddai cwricwlwm ehangach yn cael ei gynnig, a'r ysgolion eraill o fewn Consortiwm yn cynnig darpariaeth graidd gyfyngedig.

c) I ddatblygu'r Model yma gam ynhellach, bydd rhaid ystyried a ddylid darparu addysg Ôl-16 o un safle yn unig o fewn y Consortiwm, gan olygu y byddai'r ysgolion eraill o fewn y Consortiwm yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 – 16 mlwydd oed.

Bydd rhaid rhoi ystyriaeth i sut mae llywodraethu Consortiwm Ardal Ôl-16 yn yr un modd ag ar gyfer Consortiwm Ardal, a mae potensial ar gyfer ystyried rheoli ar lefel ardal hefyd.

Cryfderau a Gwendidau

Bydd y ddau fodel (Model 5 a 6) yn cynnig cyfle i gynyddu'r dewis sydd ar gael, a chynnydd yn y niferoedd fydda'i arwain at ateb cost-effeithiol. Mae cyfle hefyd i gydweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu'r ddarpariaeth honno. Byddai un amserlen ar gyfer Consortiwm yn ei gwneud yn haws i gynllunio darpariaeth.

Byddai cynnydd mewn teithio pe byddai darpariaeth benodol yn cael ei chynnig ar wahanol safleoedd. Byddai hefyd angen newid o ran diwylliant ac arferion i sicrhau fod hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae angen dealltwriaeth bellach o gost y model hwn.

Bydd y defnydd o dechnoleg yn lleihau'r angen i deithio, a gellid datblygu Rhwydwaith Ddysgu Rhithiol fel rhan o'r Model hwn.

Model 7: Ysgolion Addysg Gyfan ar gyfer disgyblion rhwng 3 – 19 mlwydd oed;

Cysyniad Ysgol Addysg Gyfan yw fod ysgol yn cael ei rheoli fel un sefydliad, un ai ar un safle sy'n cynnwys adeiladau neu unedau ar wahân ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Gallai hyn hefyd olygu fod un drefn reoli ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd mewn ardal, a bod y cyfleusterau hynny ar wahân ac wedi cael eu rhannu dros wahanol safleoedd. Gallai hyn hefyd gynnwys darpariaeth cyn-ysgol a chymunedol o dan un drefn reoli, neu gyfleusterau wedi'u cyd-leoli. Mae'r model hwn wedi'u lunio ar sail y ffaith y byddai un corff llywodraethol ar gyfer yr Ysgol Addysg Gyfan.

Mae'r defnydd o dechnoleg yn hanfodol yn y Model hwn, fel eraill. Mae'n cynnig modd i'r dysgwyr ac athrawon i ymgymryd â gwaith rhwydwaith ehangach o ysgolion ym Mhowys a led-led y wlad. Mae hefyd yn gyfle i ehangu'r cwriciwlwm ar gyfer disgyblion Cyfrwng Gymraeg heb iddynt orfod deithio.

Cryfderau a Gwendidau

Mae'r model hwn yn cynnwys dilyniant i ddisgyblion, a gallai leihau unrhyw aflonyddwch adeg cyfnodau trosglwyddo allweddol. Ceir parhad hefyd yn nhaith addysgol y disgybl. Mae manteision hefyd ar gyfer staff, a allai ehangu lefelau arbenigedd trwy gymryd rhan mewn addysg trwy'r gwahanol sectorau. Mae'n cynnig cyfleoedd i wella gallu cyfrwng Cymraeg y disgyblion, gyda llwybrau dilyniant clir.

Mae rhai arbedion o ran costau i'w cael gyda'r model hwn trwy economiau maint, a thargedu adnoddau'n fwy effeithiol. Byddai rhannu cyfleusterau, staff a chostau hefyd o fantais ariannol. Gallai unrhyw ddatblygiadau cymunedol o fewn model o'r fath arwain at gyfleoedd i ddarparu ar gyfer anghenion oedolion yn yr ardal leol.

Serch hynny, byddai rheoli Ysgol Addysg Gyfan angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Efallai na fyddai disgyblion a rhieni'n cefnogi aros mewn un sefydliad am gyfnod mor hir, ac efallai na fyddai disgyblion yn cael y profiad gwerthfawr o fynd i ysgol newydd, fel yr hyn y byddant yn ei gael wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae angen rhagor o waith i werthuso manteision ariannol y model hwn, a'r goblygiadau i safonau.

Llywodraethu Addysg Ôl-16

Dewis 1: **System Drydyddol aml-safle**, lle mae'r cyfrifoldeb ar gyfer yr holl ddysgu ôl-16 yn trosglwyddo i Goleg Powys, ynghyd â'r cyllid a llywodraethu. Gallai'r ddarpariaeth ddigwydd ar safleoedd Coleg Powys, neu gyfuniad o safleoedd ysgolion a cholegau presennol.

Dewis 2: **Corff comisiynu** – wedi'i sefydlu gan y Cyngor a Choleg a fyddai gyda chyfrifoldeb dirprwyedig i gynllunio, ariannu a chomisiynu rhaglenni dysgu ar y cyd fel consortiwm ffurfiol ar y cyd. Bydd y ddarpariaeth ar safleoedd ysgolion a cholegau penodol.

Dewis 3: **Sefydliad Addysgol newydd Powys o dan y Ddeddf Addysg Uwchradd a Bellach** – byddai'r Coleg yn cael ei ddiddymu gyda chorff cyfreithiol newydd yn cael ei greu yn ei le. Byddai yna berthynas cytundebol ffurfiol rhwng Sefydliad Addysgol Powys a'r darparwyr megis dosbarthiadau chweched mewn ysgolion, ac ni fyddai cyrff llywodraethu ysgolion yn rhan o lywodraethu ôl-16. Byddai Sefydliad Addysgol Powys yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno holl addysg ôl-16.

Mae cryfderau a gwendidau'r dewisiadau hyn wedi cael eu trafod yn fanwl yn Achos Amlinellol Strategol – Seilwaith Dysgu ôl-16 Powys 2009.

10. Camau Nesaf

Bydd y modelau hyn yn awr yn cael eu gwerthuso'n fanylach yn defnyddio Proses Pum Achos Trysorlys EM, sy'n ystyried manteision strategol, ariannol ac economaidd unrhyw ddewisiadau. Byddwn hefyd yn ystyried effaith ar gymunedau, dysgwyr, yr economi, yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg.

Bydd y broses yn arwain yr Awdurdod tuag at ddynodi ystod o ddewisiadau a ffafrir, a bydd ymgynghoriad llawn ar y dewisiadau hynny. Mae'n bwysig nodi hefyd y gellid cael gwahanol ddewisiadau ar gwahanol ardaloedd daearyddol ym Mhowys, yn seiliedig ar gyfuniad o'r modelau a nodwyd uchod.

Mae heriau yn wynebu unrhyw newid strwythurol uchelgeisiol, ac nid yw hyn yn eithriad. Mae nifer o faterion y bydd angen eu hystyried wrth i ni ddatblygu'r achos busnes ymhellach, yn cynnwys llywodraethu, rheoli, goblygiadau ar gyfer staff a chludiant, TGCh, a gofynion cyfalaf

11. Amserlen

Lluniwyd y ddogfen hon fel dogfen ymgynghorol a strategol gyntaf, yn seiliedig ar broses Model Busnes Pum Achos Tyrsorlys EM. Bydd y dewisiadau hyn, ac eraill o bosibl, yn cael eu gwerthuso ymhellach yn ystod haf 2010. Bydd barn rhanddalwyr allweddol yn hysbysu'r broses. Y bwriad wedyn yw cynnal proses ymgynghori ffurfiol ar restr fer o ddewisiadau. Y bwriad yw gosod dyddiad gweithredu heriol, ym mis Medi 2011, er mwyn i ni sicrhau gosod seilwaith a fydd yn cwrdd ag anghenion holl ddysgwyr Powys cyn gynted ag sy'n bosibl.

	Gweithgaredd	Ymgynghoriad Cyhoeddus
Mehefin	Cwblhau a chyhoeddi'r Cynllun Amlinelliad Strategol	Gweithredu'r Cynllun Trafodaeth
Mehefin– Awst	Datblygu'r dewisiadau	Trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol
Awst – Medi	Datblygu dogfen ymgynghori, yn cynnwys rhestr fer o ddewisiadau	
Hydref – Rhagfyr	Ymgynghori	Ymgynghori
Ionawr 2011	Cytuno ar y dewisiadau sydd wedi dod i'r brig, o ganlyniadau'r ymgynghoriad.	Parhau i weithredu'r Cynllun Ymgynghori
Gwanwyn 2011	Cyflwyno Achos Busnes Amlinellol i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	
Gwanwyn/ Haf 2011 ymlaen	Cyhoeddi rhybuddion statudol, os oes angen, a / neu weithredu trefniadau newydd os nad oes angen proses statudol.	Y broses ymgynghori statudol